

Cyngor Cymuned Llanfrothen  
**COFNODION CYFARFOD MISOL MAWRTH 2019**  
14 Mai 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

**Diweddariad gan Michelle Clarke, Cysylltu Cymunedau**

Bu Michelle yn ymwneud â'r prosiectau canlynol yng Ngwynedd yn ddiweddar: -

- Partneriaeth Dyffryn Nantlle – cydweithio gyda Menter Môn i gael car trydan ar gyfer teithiau byr
- Abergynolwyn/Tywyn – ystyried y defnydd o gar trydan ar gyfer defnydd lleol
- Deiniolen – ceisio cael arian grant ar gyfer bws mini cymunedol
- Ynni Ogwen – Prosiectau Ynni a rhoi'r budd i'r gymuned. Yn ceisio cael car trydan fyddai'n cario cadair olwyn.
- Cyngor Gwynedd – maent wrthi'n adolygu'r gwasanaeth bws yng Ngwynedd. Disgwylir canlyniad yr arolwg mewn rhai misoedd

Bydd Michelle yn ymweld â swyddfa'r Ganolfan ar gyfer Byw Amgen ym Mhorthmadog yn fuan, ac maen nhw yn edrych ar y posibilrwydd o gael bws mini 9-8 sedd ar gyfer defnydd lleol. Y broblem yw'r gost.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Llio Griffiths, Nyfain Wynn

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 4 Mawrth 2019.

Cynnig: Glyn Griffiths  
Eilio: Rhydwen Roberts

## **PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Nia Povey, Rhydwen Roberts, Glyn Griffiths,  
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

## **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

### **4.1 13 Garreg Frech**

Cafwyd ateb gan Arweinydd Cyngor Gwynedd, Dyfrig Siencyn. Roedd y llythyr yn cydnabod y byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu rhoi er mwyn mynd ar ôl dyledion Treth Cyngor 13 Garreg Frech. Fodd bynnag, doedd yna ddim cyfeiriad at ddefnyddio adnoddau'r Cyngor o dan y ddeddfwriaeth Tai Gwag, gan nad oedd digon o adnoddau gan Gyngor Gwynedd i fedru gwneud hyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Shelter Cymru am eu barn am ddiffyg gweithredu gan Gyngor Gwynedd a faint fyddai'r adnoddau tebygol angenrheidiol er mwyn rhoi 'r ddeddfwriaeth Tai Gwag ar waith.

Gofynnwyd hefyd i'r Clerc ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder na fyddai'r ddeddfwriaeth Tai Gwag yn cael ei roi ar waith, ac nad oedd adnoddau digonol yn yr adran dai.

### **4.2 Mynwent Tan Lan**

Cafwyd adroddiad a dyluniau topograffig yn cynnwys tri opsiwn oedd yn ail broffilio'r fynwent ar gyfer llefydd claddu ychwanegol.

Penderfynwyd fod angen gofyn faint fyddai cost y gwahanol opsiynau a faint o blotiau ychwanegol fyddai pob opsiwn yn ei greu.

Mae Cyngor Gwynedd weid cydnabod na fu iddynt wagio'r biniau yn y fynwent o gwbl dros y flwyddyn ddiwethaf, oherwydd fod y lori oedd ganddynt yn rhy fawr i ddod i fyny'r ffordd at y fynwent. Mae hyn er gwaetha'r ffaith i Gyngor Gwynedd ddweud mai lori fach fyddent yn ei ddefnyddio.

Mynegwyd cryn siom nad oedd Cyngor Gwynedd wedi gweithredu'n unol â'r cytundeb, nac wedi cysylltu ar unrhyw achlysur i nodi problem.

Cytunwyd y dylid gofyn am ad-daliad gan Gyngor Gwynedd am swm y cytundeb gan nad oeddynt wedi ei weithredu.

Penderfynwyd gofyn i Dylan Edwards wagio'r biniau bob tro y byddai'n mynd i'r fynwent i dorri gwair.

### **4.3 Y Ganolfan, Llanfrothen**

Trafodwyd trosglwyddo'r Ganolfan i Fenter Llanfrothen. Bu'r Clerc mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd gam mai nhw roddodd y Les i Gyngor Cymuned Llanfrothen yn y lle cyntaf a bydd angen eu caniatad nhw cyn medru gwneud dim pellach. Mae'n bosibl iawn y byddant yn amharod i gytuno i drosglwyddo'r les i drydydd parti arall.

Bydd Y Ganolfan yn cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau Ewrop ac fe gytunwyd codi ffi o £100 am ei defnydd, a gwneud asesiad risg o'r Ganolfan cyn diwrnod yr etholiad ar 23 Mai.

### **4.4 Cyflog y Clerc – Talu Wrth Ennill**

Mae Dunn & Ellis wedi prosesu cyflog y Clerc ar gyfer pwrpasau Talu Wrth Ennill, ar gyfer mis Ebrill 2019. Bydd angen gofyn iddynt hefyd gyfrifo ad-daliad cyflog y Clerc o Ebrill 2017 – Ebrill 2019.

### **4.5 Diogelwch a Chyflymdra Traffig, Llanfrothen**

Mae Cyngor Gwynedd wedi gwrthod cymryd camau i osod cyfyngiad cyflymder o 20mya ger y gofgolofn yn Llanfrothen.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud canllawiau ar gyfer gosod cyfyngiadau cyflymder o 20 mya mewn pentrefi yn y dyfodol. Pe byddai hyn yn dod i rym, byddai Cyngor Gwynedd yn ail ystyried y mater.

Mae'r gwaith o osod cyfyngiad cyflymder o 20 mya o flaen Ysgol Llanfrothen i fod i fynd yn ei flaen yn fuan.

#### **4.6 Canolfannau Iaith Gwynedd**

Cafwyd ateb pellach gan un o swyddogion Eluned Morgan A.S. yn dweud fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried darpariaeth y Canolfannau Iaith yng Ngwynedd yn ran bwysig o'r system addysg ac o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, ond fod yr hinsawdd ariannol yn golygu fod yn rhaid blaenoriaethu adnoddau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y sefyllfa gyda Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau nad yw ansawdd y gwasanaeth yn cael ei wanhau.

#### **4.7 Canllaw y tu ôl i'r siop**

Cafwyd pris i osod canllaw y tu ôl i'r siop yn Llanfrothen am £280. Cytunwyd fod y pris yn rhy ddrud.

Bydd y Cyngorydd Glyn Griffiths yn ceisio pris arall.

#### **4.8 Baner a pholyn, Llanfrothen**

Cytunwyd i archebu polyn baner gwydr ffibr a baner maint 2.5 x 1.

#### **4.9 Llwybrau Cyhoeddus**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i dorri'r llwybrau cyhoeddus fel y gwnaethan y llynedd yn ddi-dal.

#### **4.10 Cytundeb Delwedd**

Cafodd y Clerc brisiau gam amrywiol ddarparwyr gwefan. Cytunwyd gofyn i Cymru1.net i ddarparu'r wefan gam eu bod yn cynnig pris rhesymol o £291 + TAW = £349.20, ac roedd eu gwaith o sefydlu gwefannau ar gyfer cyngorau cymuned eraill o safon.

Cytunwyd fod angen ail-asesu cynnwys a diwyg y wefan wedi i Cymru1.net gael amser i'w sefydlu. Bydai'n fanteisiol hefyd pe byddai'n bosibl i'r Clerc ac aelodau'r cyngor cymuned fedru diweddarau'r cynnwys yn uniongyrchol.

Dylid hefyd roi ystyriaeth i lif gweplyfr a chyfryngau cymdeithasol ar y wefan.

#### **4.11 Cyngorau Cymuned – gweithio ar y cyd**

Cynhelir cyfarfod ar 20 Mai wedi ei drefnu gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth, er mwyn trafod efo cyngorau cymuned a thref lleol y posibilrwydd o gydweithio.

#### **4.12 Nodiadau Cyfarfod Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis**

Cafodd y Cadeirydd a'r Cyngorydd Glyn Griffiths gyfarfod efo cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis.

Cafwyd trafodaeth ar gael cyfraniad i'r cymuned o elw Cynllun Hydro Croesor. Byddai'r Ymddiriedolwyr yn fodlon cytuno i gyfraniad, ond ddim yn y dechrau. Sech hynny, bu addewid i roi cyfraniad o'r dechrau pan gafodd y cais cynllunio ei wneud.

Cytunwyd y dylid ystyried gofyn am ganran o'r elw ar y cychwyn yn hytrach na swm penodol. Byddai'r achos yn cryfhau pe byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau penodol, e.e. cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

#### **4.13 Ynni Cymunedol Twrog**

Y ddelfryd fyddai cael perchnogaeth cymunedol o Bwerdy Hydro Maentwrog.

Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i gael lle gwefru car trydan yn lleol – e.e. yn Siop Llanfrothen neu Blas Brondanw.

#### **4.14 Twristiaeth a Llanfrothen**

Penderfynwyd trafod twristiaeth lleol wedi'r haf.

### **5. Gohebiaeth**

- (a) Llythyr diolch gan Yr Wylan
- (b) Llythyr diolch gan y Ffermwyr Ifanc

(c) Llythyr diolch gan Ysgol Llanfrothen

## **6. Materion Ariannol**

- 6.1** Cyflog a chostau Clerc, Mawrth, Ebrill 2019 - £214.40x2 = £428.80
- 6.2** Scottish Power Anfoneb 17 Ebrill 2019 £104.53. Talwyd gan y Clerc.
- 6.3** Treth annomestig Y Ganolfan 2019/20 £802.15
- 6.4** Dŵr Cymru £53.12. Talwyd gan y Clerc.
- 6.5** Yswiriant BCHIB 1 Mehefin 2019 £864.29

## **7. Ceisiadau Cynllunio**

Dim

## **8. Materion Eraill**

### **8.1 Cyflenwad Dŵr yn Rhyd**

Mae'r cyflenwad dŵr yn Rhyd wedi bod yn wan yn ddiweddar. Bu rhai trigolion heb ddŵr o gwbl. Er fod Dŵr Cymru wedi cywiro'r broblem erbyn hyn, nid oedd Dŵr Cymru wedi rhoi gwybod beth oedd y broblem.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Dŵr Cymru i holi beth yn union oedd y broblem.

## **9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai **nos Lun Mehefin 24 2019 am 7 yh**